# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

**Teitl y cynnig:**

Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026

**Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):**

Y Gangen Polisïau Rheoleiddio ac Arolygu

**Adran:**

Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Pennaeth yr Is-adran/Uwch-Swyddog Cyfrifol (enw):**

Alistair Davey

**Yr Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog Cyfrifol:**

Dawn Bowden AS, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

**Dyddiad Dechrau:**

Haf 2025

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

### Y mater

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) yn darparu'r fframwaith statudol i reoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae Deddf 2016 yn rhoi ystod o bwerau gwneud rheoliadau a mathau eraill o is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru.

Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (“Deddf 2025”) y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth 2025. Mae'n cynnwys darpariaeth y bwriedir iddi wneud diwygiadau amrywiol i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf 2016, i sicrhau y gellir rhoi'r ddeddfwriaeth hon ar waith yn llawn ac yn effeithiol. Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i reoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn:

- ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gyhoeddi eu datganiadau blynyddol ar eu gwefannau **o fewn 91 diwrnod** i ddiwedd y flwyddyn ariannol (erbyn 30 Mehefin);
- galluogi i'r drosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser gofynnol gael ei **thrin drwy hysbysiad cosb**, a phennu swm y gosb; a
- **nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys** yng nghais darparwr i ganslo ei gofrestriad, a ffurf y cais.

### Cam gweithredu a gynigir

Yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol, cafodd newidiadau i is-ddeddfwriaeth eu nodi i alluogi gweithredu newidiadau i reoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu dwyn ymlaen drwy Reoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026). Gyda’i gilydd, mae’r offerynnau statudol hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017; Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019; a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017, i gefnogi gweithredu Deddf 2025.

Mae Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 yn rhagnodi terfyn amser y mae rhaid i ddarparwr gwasanaeth gadw ato o ran cyhoeddi ei ddatganiad blynyddol ar ei wefan. Maent yn rhagnodi bod methiant i gyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser rhagnodedig yn drosedd y gellir ymdrin â hi drwy hysbysiad cosb ac yn rhagnodi'r swm sy'n daladwy. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2026 yn rhagnodi'r wybodaeth sy'n ofynnol pan fydd darparwr gwasanaeth yn gwneud cais i ganslo ei gofrestriad, a ffurf y cais. Cyfeirir atynt fel "y Rheoliadau Diwygio" yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

**Sut mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'u cymhwyso i'r camau gweithredu arfaethedig, drwy gydol y cylch polisi a chyflawni**

## Hirdymor

Bwriad Llywodraeth Cymru yw i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol weithredu'n llawn ac yn effeithiol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r nod o sicrhau bod y drefn reoleiddio ar gyfer gofal cymdeithasol yn addas i'r diben ac yn seiliedig ar ganlyniadau. Bydd y newidiadau deddfwriaethol penodol a gynigir i amseru cyhoeddi datganiadau blynyddol gan ddarparwyr gwasanaethau yn gwella tryloywder a chysondeb yn ogystal â gwella hygyrchedd a gwella hyder y cyhoedd. Mae'r opsiwn o hysbysiad cosb yn fecanwaith gorfodi cymesur ar gyfer atal diffyg cydymffurfio heb gamau cyfreithiol costus. Bydd y newidiadau deddfwriaethol penodol a gynigir i ofyn am wybodaeth glir a safonol pan fydd darparwr yn gwneud cais i ganslo ei gofrestriad, a ffurf y cais, yn sicrhau bod gan y rheoleiddiwr, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yr wybodaeth angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio yn effeithiol yn ystod y cyfnod cau. Bydd gan Weinidogion Cymru (AGC yn ymarferol) sicrwydd ynghylch gofal, diogelwch a llesiant parhaus unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth(au) neu'n byw ynddynt.

Mae'r mesurau hyn yn hyrwyddo safonau cyson, yn lleihau risgiau i bobl agored i niwed, ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys tryloywder, cydraddoldeb, a chynaliadwyedd drwy brosesau digidol.

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn cymhwyso egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan eu bod yn gymesur, yn cyd-fynd â nodau polisi ehangach, ac yn ymatebol i anghenion rhanddeiliaid. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adolygu eu heffaith mewn modd cydweithredol. Mae'r cynnig hefyd yn adlewyrchu tueddiadau tymor hir megis digideiddio a'r galw am dryloywder. Mae gofyn am ddatganiadau blynyddol ar-lein ar wefan darparwr yn gwella hygyrchedd ac yn gwella hyder y cyhoedd, ac mae gwybodaeth fanwl am ganslo yn hybu parhad gofal.

## Cydweithredu

Roedd y gwaith o ddatblygu'r diwygiadau yn cynnwys cydweithio ag AGC, gyda chymorth ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos.

## Costau ac Arbedion

Ni ragwelir y bydd y gofyniad i gyhoeddi'r datganiad blynyddol o fewn cyfnod amser penodol yn cael effaith ar gost gan fod costau cyhoeddi ar wefan yn fychan ar y cyfan. Dim ond am ddiffyg cydymffurfio y mae cosbau'n gymwys ac maent yn gweithredu fel mesur atal. Bydd y gofyniad am wybodaeth benodol wrth ganslo cofrestriad darparwr yn golygu cynnydd bach yn unig yn y gwaith gweinyddol i ddarparwyr. Ni ddisgwylir i'r diwygiadau effeithio ar gystadleuaeth. Bydd y costau i AGC yn cael eu hamsugno o fewn y cyllidebau presennol, a bydd arbedion posibl yn deillio o lai o waith gweinyddu, gorfodi mwy effeithlon, a gwell goruchwyliaeth.

## Cyfranogiad

Mae pobl yr effeithir arnynt gan y cynigion wedi bod yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus arnynt. Cafodd hwn ei gynnal rhwng 16 Gorffennaf ac 8 Hydref 2025 ac roedd yn gofyn am farn ar ymarferoldeb ac effaith y newidiadau arfaethedig. Daeth ymatebion i law oddi wrth 20 o unigolion a sefydliadau. Ceir crynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru yma: Cynnig newidiadau i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU

**Mecanwaith**

Gan fod deddfwriaeth yn cael ei dwyn ymlaen, mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddatblygu. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig hwn yn darparu tystiolaeth ategol ar gyfer yr asesiad hwnnw.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae pobl y mae’r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o’i ddatblygu?

Datblygwyd y cynigion drwy ymgysylltu helaeth yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Drwy ymgynghoriad ffurfiol, gwahoddwyd ymatebion oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau, cyrff cynrychioliadol a defnyddwyr gwasanaethau. Law yn llaw â hynny, cynhaliwyd gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu gyda darparwyr gofal. Sicrhaodd yr adborth a dderbyniwyd eu bod yn glir, yn ymarferol, ac yn cynnal safonau uchel heb faich diangen. Mae tystiolaeth o'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref ac yn cadarnhau mai diwygiadau gweinyddol yw'r rhain yn bennaf ac na fyddant yn cael unrhyw effaith andwyol ar bobl sy'n defnyddio gwasanaeth gofal cofrestredig.

### 8.2 Beth yw’r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Disgwylir mai bach fydd yr effaith ar bobl, diwylliant, y Gymraeg, yr economi a'r amgylchedd. Mae'r newidiadau hyn yn ffurfioli arferion presennol i raddau helaeth ac yn cynnal cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae risg fach i'r rhai sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd, ond calff hon ei lliniaru gan ofyniad yn Neddf 2025 i sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar gais. Mae'r effeithiau economaidd ac amgylcheddol yn fychan gan fod y costau'n isel a chan mai dim ond am ddiffyg cydymffurfio y mae cosbau'n gymwys. Mae cyhoeddi'n ddigidol yn lleihau gwaith argraffu ac yn hybu cynaliadwyedd.

Mae'r cynigion yn cyd-fynd â nodau llesiant ac yn ceisio gwella atebolrwydd mewn modd cymedrol heb newid cyfeiriad polisi.

### 8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a’r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu’n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn cael effeithiau cyfyngedig ond maent yn unol ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Mae ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyhoeddi datganiadau blynyddol ar-lein o fewn amserlen ragnodedig yn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd.

Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i gydweithio i symleiddio ceisiadau am ddata a lleihau cymhlethdod gweinyddol. Bydd monitro ac adborth yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anfwriadol, a bydd y system gosb yn cael ei hadolygu fel ei bod yn parhau'n gymesur. Mae'r risgiau'n fychan ac mae modd eu rheoli o fewn y fframweithiau presennol. Bydd canllawiau, cymorth a chamau ymarferol clir ar gydraddoldeb, y Gymraeg a chynaliadwyedd yn sicrhau bod y newidiadau yn sicrhau manteision i bobl, cymunedau a'r amgylchedd.

**8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro ar y cyd â'r gwasanaeth a rheoleiddwyr y gweithlu.